

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Bethan Roberts

01248 602131

BethanRoberts@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 2 Rhagfyr 2021 am 19.00

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Lowri Evans

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Evan Jones

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Y Cynghorydd Kevin Williams

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Jên Morris.

2. Ymddiheuriadau gan Cyng. Geraint Hughes, Megan Tomos a Wyn Bowen Harris.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd, 2021.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Twll yn y ffordd ger y Wern – Y Cyng. Lowri Evans wedi danfon llythiau a'r lleoliad i'r Clerc. Y Clerc wedi danfon y wybodaeth ymlaen at Cyngor Gwynedd. Y Clerc i holi'r Cyng. Dafydd Meurig os oes modd gael diweddariad.

Cysylltiad Fibreoptig – Derbyniwyd ebost gan Wiliam Adams, Uwch Swyddog Cynlluniau, Arloesi – y Clerc wedi danfon y wybodaeth ymlaen at y Cyng. Lowri Evans a Megan Tomos. Y Cynghorwyr i gwblhau'r holiadur cyn gynted a phosib.

Llyn Bryn – Y Clerc wedi cysylltu gyda Stad Penrhyn am y 3 bwlch, dim diweddariad hyd yn hyn.

Sedd Wag – Dim diddordeb hyd yn hyn, y Clerc i hybysebu eto.

Arwyddion Maes y Groes – Y Clerc i gael diweddariad am yr archeb, nodwyd eu syndod fod Cyngor Gwynedd heb archebu arwyddion ers 2019.

Terfyn cyflymder Talybont i Maes y Groes – Y Clerc wedi danfon ebost at Cyngor Gwynedd i ofyn os oes modd cynnal archwiliad ar y safle, ac i ymestyn y terfyn cyflymder '30' i fyny ar y ffordd pasio Maes y Groes. Dim ymateb hyd yn hyn.

Datblygiadau Bronnydd Isaf – Y Clerc wedi holi'r adran Gynllunio eto, dim ymateb hyd yn hyn.

Gardd Cymunedol – Cadarnhawyd y bydd Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Gwyrdd yn cysylltu â ni pryd fydd y gwaith yn barod i gychwyn.

Cae Pel-droed – Y Clerc wedi cysylltu gyda Clwb Pel Droed Seintiau Lleol Bangor, a nodwyd fod y cae pel droed rhy fychan, felly ni fydden nhw yn gallu defnyddio'r cae. Y Clerc i fynd ymlaen i drefnu cyfarfod rhwng Alex Tedford o Broc Design, Cyng. Evan Jones ac Alun Thomas a'r Clerc. Y Clerc i gadw llygaid allan am grantiau addas ar gyfer y gwaith datblygu.

Tyllau yn ngwaelod Allt Ty'n Hendre – Nodwyd y Cyng. Alun Thomas fod y gwaith wedi ei gwblhau.

Gwlau Cocos, Traeth Lafan – Nodwyd fod llawer o bobl wedi bod yn casglu cocos ar Draeth Lafan yn ddiweddar, ac eu bod yn defnyddio tir ffermio cyfagos fel toiled ac yn gadael golwg a ysbwriel ar ei holau. Y Clerc wedi hysbysu Llywodraeth Cymru, y Clerc i holi am ddiweddariad.

Ffordd Llwyn Bleddyn – nodwyd gan y Cyng. Dafydd Jones yn ein cyfarfod diwethaf fod angen ymestyn y llinellau melyn ac rhoid drych ar y ffordd gyferbyn a llwybr Lon Bach Odro – y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.

Coedwig Braichmelyn – Derbyniwyd cwyn gan ffermwr lleol fod defaid yn dianc o'r goedwig oherwydd fod ffensys wedi gael ei difrodi – y Clerc wedi hysbysu'r adran goedwigaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc o holi am ddiweddariad.

Lon Goed – Adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf fod y coed o troiad Coetmor lawr at Afon Llan angen ei dorri – y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd. Nodwyd y Cyng. Dafydd Jones fod y gwaith wedi gael ei gwblhau.

Biniau halen – Aelodau i gadw llygaid ar biniau halen ac i ddanfôn rhestr o'r rhai sydd angen ei llenwi.

Pant Bowls – Adroddwyd fod un darn o'r ffordd yn dal llawer iawn o ddŵr ar adegau o law trwm, y Cyng. Lowri Evans wedi danfôn y lleoliad pendant at y Clerc, a'r Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.

Bont bach – Nodwyd fod yr bont bach dros y nant ger Sychnant angen sylw, penderfynwyd y bydd y Cyng. Kevin Williams mynd i gael golwg arno ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

5. Taliadau

Dim.

Nodwyd fod y mandad a gwblhawyd yn y cyfarfod diwethaf yn anghywir, y Clerc i drefnu i gwblhau'r mandad cywir cyn gynted a phosib.

6. Y Mynydd

Adroddwyd fod y Cyng. Kevin Williams wedi gael cyfarfod gyda'r Ymddiredolaeth Genedlaethol, a chadarnhawyd eu bod am dorri'r eithin ar Moel Faban, yn ogystal a gosod giat newydd ger Chwarel Bryn. Y Clerc i lunio llythyr o ddiolch at y bugail. Penderfynwyd bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod cyngor llawn i drafod y materion y Mynydd yn y flwyddyn newydd, y Clerc i holi argaeledd yr is-bwyllgor.

7. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio – Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr – Y Clerc i ail gyflwyno'r gohebiaeth hwn ym mis Ionawr.

Cyflwynwyd – Cynllun Cadwraeth Llanllechid - Parc Cenedlaethol Eryri – Penderfynwyd gwahodd Mari Beynon Owen i'r cyfarfod mis nesaf.

8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Dim.

9. Penderfyniadau Cynllunio:

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

Penderfyniad: ar y gweill.

C21/0078/21/CC

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0099/21/CC

Ogwen Bank Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0475/21/AC

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Newid amod rhif 2 (diwygiadau i'r cynllun, edrychiadau'r tai a'r system ddraenio) ynghyd a newid amod 28 (defnyddio ffensio math heras yn hytrach na ffensio atal dyfrgwn) o ganiatâd rhif C19/0950/21/LL.

Penderfyniad: ar y gweill.

Ceisiadau Cynllunio:

Dim.

10. Materion Brys

Ffordd lawr at Traeth Lafan – Adroddwyd fod y ffordd yma mewn cyflwr gwarthus – Y Clerc i hysbysu'r adran priffyrdd.

Ffordd ger Tyddyn Cottages, Talybont - Nodwyd fod llawer o ddwr yn llifo yma pan mae glaw trwm, y Clerc i holi'r cyn-gynghorydd Margaret Fernley ac i adrodd i Cyngor Gwynedd.

Bryn Derwas – Nodwyd fod y ffordd ger Bryn Derwas mewn cyflwr gwael ac yn beryg iawn, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Nodwyd fod yno ddim bin halen yma, y Clerc i holi os oes modd gael bin halen ar dop yr allt.

Lon Bryn – Nodwyd fod y ffordd yma mewn cyflwr gwael, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

Llwybr Capel Gilfach fyny at Bronydd – Nodwyd y Cyng. Alun Thomas fod y coed a'r gwrychoedd wedi gor-dyfu ar y llwybr hwn, y Clerc i drefnu i'r contractwr lleol dorri'i llwybr hwn.

Prosiect Partneriaeth y Carneddau – Nodwyd y Cynghorwyr eu bod ddim hyn gweld llawer o waith ymarferol yn gael i gwblhau ar y Mynydd – y Clerc i holi am ddiweddariad am y prosiect.